# Adroddiad cynnydd

**Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – Eitem 6**

| Statws: Coch / Oren / Gwyrdd | Llwyd: Cwblhawyd | Gwyrdd: Ar y trywydd iawn | Oren: Oedi | Coch: Oedi sylweddol neu risg uchel |
|---|---|---|---|---|

| Datblygu Polisi Gweithredol | Y sefyllfa bresennol | Cynnydd ers y cyfarfod diwethaf (7/3/18) | Yr hyn i'w wneud cyn y cyfarfod nesaf | Dyddiad Gorffen Disgwyliedig | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 1 – Cregyn moch** – Datblygu mesurau newydd i reoli pysgodfeydd cregyn moch Cymru yn fwy effeithiol ac mewn ffordd gynaliadwy, a'u rhoi ar waith<br><br>**Arweinydd: Leanne Llewellyn**<br>**Leanne.Llewellyn@gov.wales** | • Bydd swyddogion yn briffio Ysgrifennydd y Cabinet er mwyn amlinellu'r cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd ac yn ceisio cytundeb i'r Gwasanaethau Cyfreithiol ddrafftio'r OS.<br>• | • Mae cyngor cyfreithiol bellach wedi dod i law.<br>• Rydym bellach yn bwriadu mynd ati a chynyddu Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf Cymru gyfan yn raddol.<br>• Mae ardaloedd lle mae hanes bywyd stoc yn awgrymu ei fod yn aeddfedu pan fydd yn llai o faint yn cael eu hystyried.<br>• Rydym yn disgwyl tystiolaeth ychwanegol cyn ystyried yr opsiynau terfynol. | • Briffio Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig er mwyn amlinellu'r opsiynau ar gyfer OS sy'n ymwneud â chregyn moch fel dull gweithredu fesul cam.<br>• Rhoi gwybod i Ysgrifennydd y Cabinet am y dull gweithredu diwygiedig a drafftio cyngor gweinidogol er mwyn gofyn a gaiff y Gwasanaethau Cyfreithiol fwrw ymlaen â'r gwaith drafftio. | Hydref 2018 | **COCH**<br><br>Bydd pwysau gwaith sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE ar y Gwasanaethau Cyfreithiol yn peri oedi wrth ddrafftio deddfwriaeth. Heb adnoddau cyfreithiol ychwanegol, ni fydd modd drafftio OS llawn sy'n ymwneud â thrwyddedu hyblyg cyn ymadael â'r UE. |
| **Blaenoriaeth 2 – Cregyn bylchog** – Datblygu mesurau newydd i reoli pysgodfa cregyn bylchog Bae Ceredigion yn fwy cynaliadwy, a'u rhoi ar waith.<br><br>**Arweinydd: Julian Bray**<br>**Julian.Bray2@gov.wales** | • Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ganlyniadau'r ymgynghoriad cyntaf ar lusgrwydo cregyn bylchog yn un o ardaloedd ychwanegol Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion ym mis Hydref 2016.<br>• Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen ar gregyn bylchog er mwyn datblygu trwyddedau hyblyg i sicrhau y caiff pysgodfeydd eu rheoli'n | • Mae tymor pysgota 2017/18 bellach wedi dod i ben; gwnaeth y bysgodfa'n well na'r disgwyl.<br>• Mae dogfen ymgynghori ddrafft ynglŷn â thrwyddedu hyblyg wedi cael ei chwblhau, ac mae angen craffu/cytuno arni'n fewnol cyn y gellir bwrw ymlaen â hi.<br>• Mae uwch swyddogion wedi bod yn gweithio i sicrhau adnoddau gwasanaethau | • Os gellir sicrhau adnoddau gwasanaethau cymorth ychwanegol, hoffem gytuno ar yr opsiynau trwyddedu a'r system ddeddfwriaethol orau er mwyn eu cyflwyno cyn gynted â phosibl.<br>• Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn datblygu cynllun cyflawni ac yn trefnu i'r grŵp gorchwyl a gorffen gyfarfod eto cyn | Ni allwn ymrwymo i ddyddiad gorffen ar hyn o bryd. | **COCH**<br><br>Mae pwysau gwaith sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE ar bolisi a gwasanaethau cymorth mewnol wedi oedi'r gwaith hwn. Ar hyn o bryd, ni ellir datblygu cynllun cyflawni ar gyfer y ffrwd waith hon. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ofalus. Cyfarfu'r grŵp ddiwethaf ar 12 Medi 2017.<br>• Ni ellir cytuno ar amseriad yr ail ymgynghoriad ar drwyddedu oherwydd pwysau'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.<br>• Ni fyddwn yn gallu datblygu cynllun cyflawni na gwneud cynnydd ar y ffrwd waith hon nes y gallwn sicrhau adnoddau gwasanaethau cymorth ychwanegol. | cymorth ychwanegol er mwyn ei gwneud yn bosibl i symud y ffrwd waith hon yn ei blaen. | gynted â phosibl er mwyn dechrau'r ffrwd waith hon. | | |
| **Blaenoriaeth 3 – Cynllun Rheoli Cocos** – Gwella'r ffordd y caiff cocos eu rheoli yng Nghymru.<br><br>**Arweinydd: Mark Tilling**<br>**Mark.Tilling@gov.wales** | • Rheolwr prosiect i gynnal adolygiad dyfnach o'r cyfrifon a'r opsiynau sy'n seiliedig ar brofiadau yng ngoleuni adborth y diwydiant yn ddiweddar.<br>• Cyfuno'r dogfennau gan gysylltu cynigion presennol pan fydd y drafft terfynol ar fin cael ei gwblhau<br>• Cymorthfeydd wedi'u cwblhau a'r pwyntiau mwyaf pwysig wedi'u nodi.<br>• Ni chafwyd ymateb i'r model Trothwy ar gyfer Ecosystem, yn dilyn adborth, oherwydd yr amseru – Bwriedir ailgyhoeddi tendr am gyfnod estynedig.<br>• Mae gwaith wedi dechrau ar y ddogfen ymgynghori derfynol. | • Cynhaliwyd cyfarfod â'r Gwasanaethau Cyfreithiol er mwyn trafod y cyngor a ddaeth i law.<br>• Mae grŵp y prosiect a'r Bwrdd wedi cytuno ar un opsiwn ar gyfer polisi ar ddyrannu trwyddedau.<br>• Mae cynnydd da wedi cael ei wneud ar yr opsiynau sy'n ymwneud â chost y drwydded. Daethpwyd i gasgliadau ar gostau'r cam gwneud cais.<br>• Trefnwyd a chynhaliwyd cymorthfeydd â phwyntiau cyswllt yn y diwydiant a oedd yn bresennol yn ystod y cyfarfodydd y llynedd. Nodwyd y pwyntiau mwyaf pwysig.<br>• Mae'r ddogfen derfynol ar wneud cais yn barod i'w | • Mae'r drafft terfynol o'r ddogfen gostio wedi'i gwblhau.<br>• Mae drafft wedi'i gwblhau o'r ddogfen ymgynghori yn barod er mwyn ceisio cyngor cyfreithiol arni.<br>• Mae'r draft terfynol o'r opsiynau sy'n seiliedig ar gyfrifon a phrofiadau yn barod er mwyn ceisio cyngor cyfreithiol arno.<br>Mae'r gwaith i bennu cwmpas polisi ar y defnydd lleiaf wedi'i gwblhau. | Bydd y dyddiad cwblhau targed yn cael ei benderfynu gan y cynllun cyflawni diwygiedig. | **OREN** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | rhannu gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol. | | | |
| **Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop** – Agor Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn llawn a chyfrannu at y gwaith o gyflawni prosiectau i sicrhau bod y Gronfa yn cael ei dyrannu'n llawn yng Nghymru er mwyn cefnogi diwydiant ffyniannus a chynaliadwy yn barod am ymadael â'r UE.<br><br>**Arweinydd – Bethan Jones Bethan.Jones6@gov.wales** | • Agorodd Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn llawn ym mis Ionawr 2017.<br><br>• Y gyllideb graidd, heb gynnwys y gyllideb statudol a ddyrannwyd at ddibenion casglu a rheoli data a gorfodi, yw £9.9m.<br><br>• Ar 20 Chwefror 2018, roedd 41 o geisiadau llawn wedi dod i law, a chyfanswm y ceisiadau am grant oedd £10.4m (grantiau o dan y gronfa gwerth ychydig yn llai nag £8.5m). O'r rhain, mae naw prosiect a gymeradwywyd wrthi'n cael eu cyflawni, gyda grantiau gwerth ychydig yn llai nag £1.2m (grantiau o dan y gronfa gwerth ychydig yn llai nag £1m) wedi'i ddyfarnu i'r prosiectau hyn.<br><br>• Dyfarnwyd grant i ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, a dyfarnwyd grant i'r pedwar Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd er mwyn talu eu costau cynnal a chostau gweithredu strategaethau datblygu lleol. | • Mae disgwyl i'r Cynllun Cynghorwyr Datblygu Busnes Pysgodfeydd gael ei roi ar waith eto gyda chyllideb gyfyngedig a chael ei reoli gan Is-adran y Môr a Physgodfeydd.<br><br>• Cyflwynwyd saith ffurflen Amlinellu Prosiect sy'n ymwneud â newid cewyll. Gofynnwyd i'r unigolion hynny a gyflwynodd y ffurflenni gyflwyno cais llawn. Yn dilyn archwiliadau cychwynnol, mae pob un o'r saith ffurflen yn bodloni gofynion rheoliad Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a'r polisi ar newid cewyll. Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau eto.<br><br>• Dyfarnwyd grant i Fenter a Busnes ar y cyd â'r Gronfa Ddata ar Offer Pysgota Môr ar gyfer y prosiect marchnata. | • Eglurhad i gael ei roi sy'n esbonio'r hawl i addasu cewyll yn hytrach na'u newid os mai hynny yw dewis yr ymgeisydd. CWBLHAWYD<br><br>• Hyrwyddo'r cynlluniau i fusnesau a rhanddeiliaid yn barhaus fel y mae adnoddau'n caniatáu er mwyn ceisio sicrhau bod mwy yn defnyddio'r grant. YN MYND RHAGDDO<br><br>• Mae'r gyfradd troi amlinelliad prosiect yn gais llawn yn isel ar hyn o bryd, er bod cymorth ar gael gan y Cynllun Cynghorwyr Datblygu Busnes Pysgodfeydd. Mae angen gweld beth yw'r rhwystrau i gyflwyno cais llawn a nodi pa gymorth ychwanegol sydd ei angen (os o gwbl).<br><br>• Mynd ati i annog y diwydiant i ymateb yn gyflym i unrhyw ymholiadau y mae'r Uned | Dd/G | **COCH**<br><br>Ar 20 Chwefror 2018, roedd 41 o geisiadau llawn wedi dod i law, a chyfanswm y ceisiadau am grantiau oedd £10.4m (grantiau o dan y gronfa gwerth ychydig yn llai nag £8.5m), ac o'r rhain, dim ond naw prosiect a gymeradwywyd sydd wrthi'n cael eu cyflawni, gyda grantiau gwerth ychydig yn llai nag £1.2m (grantiau o dan y gronfa gwerth ychydig yn *llai nag £1m*) wedi'i ddyfarnu i'r prosiectau hyn.<br>Dim ond **12%** o gyfanswm y grant y gofynnwyd amdano sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Ar sail y gwaith ymgynghori â'r diwydiant, a lywiodd raglen Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, a'r nifer isel a ddefnyddiodd fesur cyfatebol Cronfa Pysgodfeydd Ewrop 2000-2007, nid yw mesur newid motor Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop wedi cael ei roi ar waith yng Nghymru. | | Rheoli Cynlluniau yn eu gwneud yn ystod y cam arfarnu er mwyn cyflawni'n gyflymach. PARHAUS | | |
| **Cosbau gweinyddol penodedig** – Datblygu a diweddaru'r system bresennol ar gyfer rhoi cosbau gweinyddol penodedig.<br><br>**Arweinydd – Joey Hughes**<br>**Joey.Hughes@gov.wales** | • Amcanion cosbau gweinyddol penodedig:<br>○ *cynnig opsiynau amgen nad ydynt yn cynnwys achos llys ar gyfer mân droseddau*<br>○ *ei gwneud yn bosibl i roi cosbau yn fwy cyflym*<br>○ *lleihau costau ac ansicrwydd i bysgotwyr*<br>○ *sicrhau dull gweithredu cyson*<br>• Mae gan Gymru bwerau eisoes i roi cosbau gweinyddol penodedig fel opsiwn amgen yn lle achos llys ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Y bwriad yw ehangu'r cynnig hwn i droseddau domestig a chynnal lefelau'r cosbau presennol, ond ehangu uchafswm y ddirwy a ganiateir ar gyfer troseddau lluosog.<br>• Mae dogfennau ymgynghori, asesiadau effaith rheoleiddiol a systemau / opsiynau talu yn | • Rydym wedi mapio'r ffordd y bydd angen diwygio'r categorïau o droseddau presennol er mwyn ystyried troseddau domestig; bydd hyn yn rhan o'r ddogfen ymgynghori.<br>• Mae dogfen ymgynghori ddrafft wedi cael ei llunio a'i rhannu â'r Gwasanaethau Cyfreithiol; rydym yn disgwyl sylwadau ar y drafft diweddaraf.<br>• Rydym yn disgwyl i economegwyr Llywodraeth Cymru wneud sylwadau pellach ar yr asesiad effaith rheoleiddiol drafft a baratowyd i gyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori.<br>• Mae opsiynau ar gyfer system dalu yn cael eu mapio o hyd ar y cyd â'r adran Gyllid – yn mynd rhagddo. | • Bydd trafodaethau â chydweithwyr cyllid yn parhau er mwyn mapio opsiynau ar gyfer system dalu a'r ffordd y cânt eu rheoli.<br>• Yn dilyn sylwadau gan uwch swyddogion, y bwriad yw ceisio caniatâd gan Weinidogion i ymgynghori ym mis Gorffennaf am 12 wythnos lawn. Byddai hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru ei drafod yn ystod un o'i gyfarfodydd tra bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal. | • Hydref 2018 (cynllun yn barod)<br>• Gaeaf 2018/19 (cyflwyno) | **OREN** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cael eu datblygu. | | | | |
| **Asesu pysgodfeydd Cymru**<br><br>**Arweinydd – Nicola Britton**<br>**Nicola.Britton@gov.wales** | • Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal 63 o asesiadau mamolion morol; y nod yw eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2018 a'u rhannu â Llywodraeth Cymru ac asiantaethau trawsffiniol er mwyn iddynt wneud sylwadau arnynt cyn eu cyhoeddi.<br>• Sicrhau ansawdd yr asesiadau am y tro olaf cyn cyhoeddi pob un ohonynt ar wefannau Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2018. | • Gwaith yn araf oherwydd blaenoriaethau eraill Cyfoeth Naturiol Cymru (arbenigwyr yn y sector). Mae Bwrdd Prosiect mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ail-lunio'r elfennau i'w cyflawni er mwyn adlewyrchu'r heriau hyn.<br>• Mae gwaith wedi ailddechrau yn y flwyddyn newydd am fod arbenigwyr yn y sector ar gael a bod adnoddau ychwanegol wedi cael eu sicrhau i gefnogi'r Swyddog Prosiect.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau adnoddau. Bydd Michelle Billing, sydd wedi ymuno ag Is-adran y Môr a Physgodfeydd (Ebrill 2018) yn gweithio gyda Stuart Evans i fwrw ymlaen â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar asesu pysgodfeydd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu polisi | • Caiff 63 o asesiadau mamolion eu cyhoeddi ar wefannau Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2018 yn hytrach na mis Rhagfyr 2017.<br>• Caiff yr holl asesiadau eraill eu cynnal dros y ddwy flynedd nesaf fel rhan o'r prosiect sy'n mynd rhagddo.<br>• Bydd y swp nesaf o asesiadau'n ymwneud â physgota â chewyll.<br>• Dechreuodd y Rheolwr Prosiect newydd (MB) yn Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018. | • Diwedd mis Ebrill 2018 ar gyfer cwblhau 63 o asesiadau mamolion. | **OREN**<br><br>Gwnaeth Llywodraeth Cymru sicrhau adnodd newydd a ymunodd ag Is-adran y Môr a Physgodfeydd ym mis Ebrill 2018. Bydd yn dechrau adolygu'r opsiynau ar gyfer gweithredu polisi mewn perthynas â'r anghenion rheoli a nodwyd o'r gweithgareddau porffor a aseswyd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | mewn perthynas â'r anghenion rheoli a nodwyd o weithgareddau a aseswyd. Mae hyn yn cynnwys datblygu a chymryd camau rheoli er mwyn bodloni a mynd i'r afael â gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. | | | |
| **Datblygu mesurau rheoli cregyn y Frenhines**<br><br>**Arweinydd – Janet Perry**<br>**Janet.Perry@gov.wales** | Mae swyddogion wedi ceisio cyngor cyfreithiol er mwyn:<br><br>1) bwrw ymlaen â mesur i gau'r bysgodfa am gyfnod o dri mis yn ystod 2018 (Ebrill, Mai a Mehefin) ar gyfer y tymor silio;<br><br>2) cynyddu'r Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf ar gyfer cregyn y Frenhines i 50mm (gyda chynnydd posibl i 55mm yn y dyfodol). | • Anfonwyd y cyngor at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, ac mae swyddogion yn disgwyl ei hargymhellion. | • Disgwyl argymhellion Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig. | • Gwanwyn 2018 pan fydd amodau trwydded diwygiedig yn cael eu cyflwyno. | **OREN**<br><br>Cau'r bysgodfa am dymor drwy amod trwydded. Ymchwilir i opsiynau ar gyfer cynyddu'r Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf. |
| **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**<br><br>**Arweinydd – John Hamer**<br>**John.Hamer@gov.wales** | • Wrthi'n ystyried 86 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio cynllun drafft. | • Ymatebion i'r ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu wedi'u categoreiddio a'u hychwanegu at gronfa ddata er mwyn hwyluso'r gwaith dadansoddi a chefnogi unrhyw ymchwiliad pellach sy'n angenrheidiol.<br>• Cynhaliwyd gweithdy'r Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y cynllun drafft ar 14 Mawrth a chynhadledd cynllunio morol genedlaethol ar 20 Chwefror.<br>• Cyfarfu'r Grŵp Cyfeirio | • Dadansoddi ymatebion a chyflwyno cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet, gan gynnwys ystyried yr angen i gynnal ymchwiliad annibynnol.<br>• Diwygio'r cynllun a'r arfarniad o gynaliadwyedd / Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn unol â'r ymatebion i'r ymgynghoriad lle y bo'n briodol.<br>• Ymgysylltu ag arweinwyr polisi yn | • Busnes fel arfer – cyflawni'r ffrwd waith yn barhaus | **GWYRDD** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhanddeiliaid ar 3 Ebrill er mwyn ystyried adborth o ddigwyddiadau a bwrw ymlaen â'r cynllun cynllunio ehangach.<br>• Cynhaliwyd cyfarfod y Grŵp Cynghori ar Brosiect Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.<br>• Datblygwyd y map o dystiolaeth cynllunio morol.<br>• Rhoddwyd cytundeb 5 mlynedd ar waith ar gyfer set ddata system gwybodaeth ddaearyddol y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, sef Atlas Arfordirol y DU o Weithgarwch Hwylio Hamddenol. Mae data'n cael eu hychwanegu at y porth.<br>• Wedi parhau i ddatblygu gweithgarwch monitro a chofnodi a threfniadau gweithio trawsffiniol.<br>• Mae'r adroddiad cynllunio is-genedlaethol ar ei ffurf derfynol a chytunwyd ar y camau nesaf. | Llywodraeth Cymru a'r DU er mwyn cytuno ar newidiadau i bolisïau.<br>• Gweithdy ymgynghorai statudol i ystyried yr arfarniad o gynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar y cyd ag ymgyngoreion o awdurdodau'r DU a Gweriniaeth Iwerddon.<br>• Llunio crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gyhoeddi.<br>• Gweithio gyda'r Sefydliad Rheoli Morol ac eraill er mwyn datblygu polisi trawsffiniol a ffyrdd o weithio ar gyfer aber Afon Hafren ac aber Afon Dyfrdwy. | | |

# Adroddiad cynnydd



| Y wybodaeth ddiweddaraf am y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin | Y sefyllfa bresennol | Cynnydd ers y cyfarfod diwethaf (7/3/18) | Yr hyn i'w wneud cyn y cyfarfod nesaf |
|---|---|---|---|
| **Polisi Pysgodfeydd Cyffredin** – Gweithredu darpariaethau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn llwyddiannus.<br><br>**Arweinydd – Mark Stafford**<br>**Mark.Stafford@gov.wales** | • Mae'r Rhwymedigaeth Lanio yn cael ei chyflwyno'n raddol am y flwyddyn olaf cyn ei gweithredu'n llawn yn 2019.<br>• Tynnwyd sylw at risgiau/effeithiau posibl cyfyngu ar gwotâu rhywogaethau ar y lefel wleidyddol uchaf.<br>• Mae'r ffordd y caiff cyfanswm y ddalfa a ganiateir ei benderfynu yn parhau i arwain at gynnydd yn nifer y stoc sy'n marw wrth sicrhau'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf.<br>Mae'r Rheoliad Cadwraeth Dechnegol a adolygwyd yn destun proses penderfynu ar y cyd o hyd. Disgwyliedig ym mis Medi/Hydref 2018.<br>Adolygu'r Rheoliad Rheoli er mwyn cymhathu 'Rheoliad Omnibws' i'w lansio. | • Ymgysylltu'n barhaus â gweinyddiaethau datganoledig y DU ar ddatblygu safbwynt y DU.<br>• Nodi a rhoi gwybod am y risgiau penodol sy'n gysylltiedig â chyfyngu ar gwotâu rhywogaethau mewn pysgodfeydd yng Nghymru (morgathod a lledod cochion).<br>• Parhau i gyfrannu at drafodaethau grŵp rhanbarthol dyfroedd gogledd-orllewinol o dan lywyddiaeth newydd Iwerddon (1/1/18). Papur atebion y DU mewn perthynas â rhywogaethau y gellir cyfyngu ar eu cwota yn cael ei baratoi.<br>• Nodi mesurau technegol cysylltiedig ar rywogaethau y gellir cyfyngu ar eu cwota sy'n bygwth canlyniadau anfwriadol i bysgotwyr Cymru, sy'n berthnasol i'r Môr Celtaidd yn arbennig. | • Monitro datblygiadau a sicrhau y caiff buddiannau Cymru eu hamddiffyn.<br><br>• Parhau i gymryd rhan ym mhroses grŵp rhanbarthol dyfroedd gogledd-orllewinol. |
| **Draenogiaid y môr** – Datblygu a gweithredu mesurau domestig a rheoli'r UE er mwyn sicrhau bod y bysgodfa draenogiaid y môr yng Nghymru yn cael ei rheoli'n effeithiol ac mewn ffordd gynaliadwy. (Yn cynnwys holl ddyfroedd Cymru ond yn ymwneud yn bennaf â physgodfeydd o fewn 12nm).<br><br>**Arweinydd: Mike Jones**<br>**Michael.Jones@gov.wales** | Cytunwyd ar fesurau rheoli 2018 yn ystod cyfarfod Cyngor yr UE ym mis Rhagfyr 2017.<br>• Cytundeb dros dro tra'n disgwyl i'r Comisiwn gynnal ymarfer 'meincnodi' cyngor gwyddonol a chyflwyno adroddiad erbyn mis Ebrill 2018.<br>• Gwaith ystyried mesurau domestig wedi'i oedi nes bod mesurau rheoli'r UE yn sefydlog.<br>• Datblygwyd rhaglen samplu pysgota hamdden i ategu'r llall. | • Cyd-destun mesurau rheoli'r UE yn 2018 bellach yn glir.<br>• Gwnaeth ystyriaethau Cymru ddylanwadu'n sylweddol ar y mesurau rheoli, yn enwedig o ran hyblygrwydd lwfansau dal â chewyll penodedig a gostwng cyfyngiadau ar bysgota bachyn a lein.<br>• Roedd trwyddedau cychod a llongau yn amrywio i adlewyrchu gofynion y rheoliad sy'n ymwneud â chyfanswm cwota a'r canllawiau a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. | • Cael canlyniad yr ymarfer meincnodi a chynigion disgwyliedig a newydd ar gyfer rheoli gan y Comisiwn Ewropeaidd, a'u hystyried |

# Adroddiad cynnydd



| Y wybodaeth ddiweddaraf am y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin | Y sefyllfa bresennol | Cynnydd ers y cyfarfod diwethaf (7/3/18) | Yr hyn i'w wneud cyn y cyfarfod nesaf |
|---|---|---|---|
| **Strategaeth Bwyd Môr Cymru** – Hwyluso'r gwaith o ddatblygu diwydiant bwyd môr ffyniannus, bywiog, diogel a chynaliadwy i Gymru. Targed: Tyfu diwydiant bwyd môr Cymru 30% mewn ffordd gynaliadwy erbyn 2025. 4 cam gweithredu allweddol:<br>1. Sail dystiolaeth gadarn<br>2. Rheoleiddio priodol<br>3. Buddsoddi mewn busnesau a'u tyfu<br>4. Marchnata a hyrwyddo<br><br>**Arweinydd – Bethan Jones**<br>**Bethan.Jones6@gov.wales** | Sail dystiolaeth gadarn<br>• Canolfan Ragoriaeth mewn Bwyd Môr – rhith-ganolfan ar gyfer yr holl ymchwil – Prifysgol Bangor wedi datblygu papur cydsyniad.<br>Rheoleiddio priodol<br>• Gweler Pysgod Cregyn, Cregyn Moch a Chocos<br>Buddsoddi mewn busnesau a'u tyfu<br>• Cymeradwywyd y cais Iechyd a Hyfforddiant i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.<br>• Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid i'r Gronfa Ddata ar Offer Pysgota Môr ar gyfer dyfeisiau arnofio personol. | • Diffyg diddordeb ymhlith busnesau i fod yn bresennol yn Seafood Expo Global. Fodd bynnag, derbyniodd swyddogion Llywodraeth Cymru 35 o ymholiadau ymarferol ar y stondin (ac eithrio'r rhai a wnaed yn uniongyrchol i'r busnesau a oedd yn bresennol).<br>• Lluniwyd a defnyddiwyd deunyddiau marchnata bwyd môr Cymru yn Seafood Expo Global 2018.<br>• Pafiliwn Cymru yn Seafood Expo Global 2018.<br>• Ffilm hyrwyddo ar gael i bob swyddfa dramor ac ar wefan Marine Wales.<br>• Mae llyfryn ar allforio bwyd môr wedi cael ei lunio mewn dwy iaith hyd yma, a bydd ar gael mewn rhagor o ieithoedd ac yn cael ei rannu â swyddfeydd dramor.<br>• Cafodd cyfarfod y Grŵp Cynghori ar Ddyframaethu ei ganslo oherwydd diffyg presenoldeb.<br><br>Penodwyd Miller Research i wneud gwaith sy'n ymwneud â pharatoi'r sector (ar yr agenda). | • Parhau i ddatblygu'r farchnad a dulliau masnachu.<br>• Gwaith sy'n ymwneud â pharatoi'r sector ar gyfer Brexit yn parhau gydag argymhellion sy'n deillio o waith Miller Research yn cael eu defnyddio i lunio cynllun gweithredu a rhaglen gyflawni.<br>• Gwaith parhaus ar dystysgrifau allforio a rhwystrau i fasnachu nad ydynt yn dariffau.<br>• Swyddogion i roi sylw i ymholiadau a wnaed yn ystod Seafood Expo Global 2018.<br>• Aildrefnu cyfarfod y Grŵp Cynghori ar Ddyframaethu. Cylch gorchwyl i gynnwys cworwm ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. |

Bydd y Grŵp yn cadw golwg ar y canlynol:

| Pysgodfeydd datblygol | Y sefyllfa bresennol | Cynnydd ers y cyfarfod diwethaf (7 Mawrth 2018) | Yr hyn i'w wneud cyn y cyfarfod nesaf | Dyddiad Gorffen Disgwyliedig |
|---|---|---|---|---|
| **Gwrachod y môr**<br><br>**Arweinydd – Mike Jones**<br>**Michael.Jones@gov.wales** | • Mae gweithgarwch dal rhywogaethau gwyllt a'r galw posibl gan y sector dyframaethu yn cael eu hasesu ar hyn o bryd. Yn 2017, ni phrynwyd unrhyw wrachod y môr a oedd yn fyw oddi wrth Gymru er mwyn darparu 'pysgod glanach' i'r diwydiant ffermio eog yn yr Alban. | • Mae trafodaethau â'r diwydiant dyframaethu yn parhau. Mae dyddiad cyfarfod dros dro wedi cael ei aildrefnu.<br>• | • Gan ddibynnu ar lefel y gweithgarwch a chynlluniau busnes y diwydiant ffermio eog, ystyried datblygu Cod Ymarfer. | Dd/G |
| **Pysgodfa Cyllyll Môr**<br><br>**Arweinydd – Gwyddoniaeth**<br>**Jenni.Hartley@gov.wales** | • Dim cyfyngiadau ar hyn o bryd heblaw am gau pysgodfa'r gogledd (Llanfairfechan). | • Cyflwynwyd adroddiad sy'n asesu methodolegau posibl ar gyfer asesu'r stoc o gyllyll môr ledled Cymru a llywio unrhyw gynllun gweithredu dilynol – gweler eitem 9(iii). | • Ystyried canfyddiadau'r adroddiad i ddatblygu cynllun arolwg peilot ar gyfer Llanfairfechan.<br>•<br>• | Anhysbys |

**Meysydd Datblygu Polisi Posibl yn y Dyfodol**

Mae aelodau'r grŵp wedi codi'r eitemau isod fel problemau, ac mae swyddogion polisi wedi ychwanegu atynt er mwyn datblygu polisi yn y dyfodol. Pan fydd y blaenoriaethau polisi presennol wedi cael eu cwblhau, gofynnir i'r aelodau pa rai o'r eitemau canlynol y dylid rhoi sylw iddynt.

| Problem / Rhywogaeth | Amcan | Sut y byddai'r gwaith hwn yn cyflawni ein hamcanion rheoli cynaliadwy? | Amserlen a blaenoriaeth (Pa mor bwysig yw'r gwaith?) | Sylwadau Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|---|
| 1. **Tystysgrifau allforio** – Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, bydd angen tystysgrif allforio i allforio cynnyrch y DU i Ewrop. | Creu system ar-lein ar gyfer cynhyrchu tystysgrifau allforio er mwyn sicrhau y gallwn barhau i allforio cynnyrch pysgodfeydd i'r UE. | Mae'r gallu i barhau i fasnachu gydag Ewrop yn hollbwysig i gynaliadwyedd diwydiant Cymru yn y dyfodol. | **Critigol:** Gan dybio y bydd y DU yn drydedd wlad ar ôl iddi ymadael â'r UE, rhaid i system fod ar waith ar y diwrnod cyntaf er mwyn sicrhau y gellir parhau i allforio i Ewrop. | Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Sefydliad Rheoli Morol a Marine Scotland i ddatblygu system tystysgrifau allforio electronig er mwyn paratoi ar gyfer y diwrnod cyntaf. |
| 2. **Cofnodi dalfeydd cychod dan 10m** | Gwella'r ffordd y caiff data eu casglu gan y fflyd dan 10m yng Nghymru er mwyn gwella'r gallu i reoli pysgodfeydd a rhoi cyfleoedd i bysgota. Bydd tystysgrifau allforio yn dibynnu ar gyflwyno data ar ddalfeydd yn electronig. | Bydd ystadegau cywir a chyfredol ar gofnodi dalfeydd yn helpu i sicrhau y ceir y budd mwyaf o gyfleoedd i bysgota yng Nghymru. Bydd defnyddio system fonitro cychod y glannau, ynghyd â chofnodi dalfeydd cychod dan 10m, yn helpu i sicrhau statws amgylcheddol da stociau pysgodfeydd yng Nghymru o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. | **Critigol:** Bydd tystysgrifau allforio yn dibynnu ar wybodaeth gywir ac amserol am ddalfeydd, felly mae angen system ar gyfer y diwrnod cyntaf. | Mae gwaith wedi dechrau ar y cyd â'r Sefydliad Rheoli Morol a Marine Scotland ar system cofnodi dalfeydd cychod dan 10m. Cyflwynwyd cais Rheoli a Gorfodi o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop i gynnwys prosiect cofnodi dalfeydd cychod dan 10m. Gweler y nodyn gweithrediadau. |
| 3. **System fonitro cychod y glannau** | Gwella dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r fflyd yn gweithio yng Nghymru a datblygu set ddata gadarn i ddangos ardaloedd lle mae gweithgarwch pysgota. Sicrhau bod ardaloedd lle mae gweithgarwch pysgota yn nyfroedd Cymru yn cael eu cydnabod a'u hystyried yn briodol yn unol â Chynllun Morol | Bydd defnyddio system fonitro cychod y glannau, ynghyd â chofnodi dalfeydd cychod dan 10m, yn helpu i sicrhau statws amgylcheddol da stociau pysgodfeydd yng Nghymru o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol | **Pwysig:** Disgwylir i'r prosiect gael ei gyflwyno'n llawn i'r fflyd erbyn 2021. | Cyflwynwyd cais Rheoli a Gorfodi i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop i gynnwys prosiect system fonitro cychod y glannau. Gweler y nodyn gweithrediadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cenedlaethol Cymru. | | | |
| **4.Cimychiaid wyog** | System gynaliadwy, addasol/hyblyg sydd wedi'i harwain gan dystiolaeth o reoli pysgodfeydd: | Datblygu sail dystiolaeth a gwerthuso mesurau presennol i lywio system reoli addasol sy'n cefnogi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol: | **Pwysig** | Ystyried o dan ran II o'r adolygiad o gramenogion yng Nghymru. |
| **5. Pysgota / Genweirio Hamdden** | Mae rhywogaethau a gaiff eu dal a'u glanio yn cael eu cofnodi a'u cyfrif mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r diwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau sy'n ymwneud â phrynu a gwerthu: | Ac eithrio rhoi trwyddedau ar gyfer cewyll, nid oes ffordd o reoli na ffordd effeithiol o fonitro'r rhywogaethau a gaiff eu dal a'u glanio na'r dull a ddefnyddir i'w dal.<br>Mae'r ddeddfwriaeth Prynwyr a Gwerthwyr yn deillio o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. O ganlyniad, mae wedi'i chyfyngu i gychod neu longau pysgota drwy ehangu pwerau Gweinidogion Cymru i gynnwys pob pysgodfa yng Nghymru o dan y ddeddfwriaeth Prynwyr a Gwerthwyr. Byddai gan reolwyr pysgodfeydd y data sy'n angenrheidiol i lywio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy: | Aneglur | Angen rhagor o wybodaeth cyn datblygu polisi. |
| **6. Rheoli pysgodfeydd aber Afon Dyfrdwy** | • Adolygu is-ddeddfau aber Afon Dyfrdwy.<br>• Nodi'r prif bysgodfeydd o fewn yr aber, gan gynnwys dulliau pysgota. Deall gwasgariad daearyddol, maint a graddfa gweithrediadau pysgota o fewn yr aber. | Mae'r is-ddeddfau presennol wedi dyddio. Mae angen eu hadolygu i sicrhau bod gweithrediadau pysgota sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn gynaliadwy. Bydd hyn yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor pysgodfeydd yn yr ardal yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae is- | Bydd adolygiad cychwynnol o gyflwr presennol y bysgodfa yn nodi'r flaenoriaeth a gaiff ei rhoi i'r darn o waith hwn. | Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod y ffordd y caiff yr ardal hon ei rheoli yn y dyfodol gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r ardal (y Sefydliad Rheoli Morol, Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth Glannau Gogledd-Orllewin Lloegr, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru). |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Ystyried rhyngweithiadau rhwng gweithrediadau pysgota gwahanol a'r rhyngweithio rhwng ffin Cymru/Lloegr. | ddeddfau ar ochr Lloegr i'r aber yn cael eu hystyried hefyd ar gyfer yr adolygiad. Bydd angen i hyn gael ei ystyried er mwyn sicrhau bod is-ddeddfau'n gyson â'i gilydd ac nad yw diwydiant Cymru dan anfantais. | | |